# Pecyn Adnoddau
# Sylfeini 360

Fframwaith
Sylfeini
Cymru

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ar gyfer pwy mae'r pecyn? | 3 |
| Sut Bydd yn Helpu Fy Nghlwb? | 3 |
| Pwy Ddylai Ei Gwblhau? | 4 |
| Sut Mae Dechrau Arni? | 4 |
| Faint o Amser Fydd o'n ei Gymryd? | 4 |
| Siart Llif Sylfeini 360 | 5 |
| Cam 1 - Pwyllgor | 6 |
| Cam 2 – Hyfforddwyr, Cynorthwywyr, Gwirfoddolwyr a Chyfranogwyr | 7 |
| Pam Mae Lleisiau Plant yn Bwysig mewn Chwaraeon | 8 |
| Beth Mae "Llais y Plentyn" yn ei Olygu | 9 |
| Creu Diwylliant "Dim Atebion Anghywir" | 10 |
| Ffyrdd Ymarferol o Gofnodi Lleisiau Plant sy'n Cefnogi Sylfeini 360 | 10 |
| Gweithgareddau Cefnogol | 11 |
| Adnoddau Enghreifftiol ar gyfer Hyfforddwyr | 14 |
| Cardiau Fflach Sylfeini 360 | 15 |
| Cam 3 - Archwilio Eich Canlyniadau | 16 |
| Dadansoddi ac Adlewyrchu | 18 |
| Y Camau Nesaf | 19 |

# Ar gyfer pwy mae'r pecyn?

## Sylfeini 360: Adlewyrchu, Gwella, Ffynnu

Mae **Sylfeini 360** yn adnodd adlewyrchu newydd, am ddim, sydd wedi'i gynllunio i helpu clybiau a sefydliadau ledled Cymru i greu'r amgylcheddau gorau posibl i blant 3 i 11 oed fwynhau gweithgarwch corfforol a chwaraeon. Wedi'i ddatblygu i gefnogi gweithredu **Fframwaith Sylfeini Cymru**, mae'n cynnig ffordd ymarferol o asesu, adlewyrchu a gwella darpariaeth eich clwb yn unol ag egwyddorion craidd y fframwaith: **Diogelwch a Pherthyn, Mwynhad ac Ymwneud, a Datblygiad a Hyder.**

### Mae Sylfeini 360 yn:

- **Platfform syml, hyblyg a digidol ar gyfer hunanadlewyrchu.**
- **Datblygiadol, gan flaenoriaethu gwelliant parhaus a chynnal safonau uchel.**
- **Cyfannol, gan gasglu gwybodaeth gan bwyllgorau clybiau, hyfforddwyr a phlant.**
- **Cyd-fynd â'r egwyddorion craidd: Diogelwch a Pherthyn, Mwynhad ac Ymwneud, a Datblygiad a Hyder.**

# Sut Bydd yn Helpu Fy Nghlwb?

Mae Sylfeini 360 wedi'i adeiladu o amgylch profiadau real - sut beth yw bod yn rhan o'ch clwb, sut mae plant yn ymgysylltu, a sut mae hyfforddwyr yn tyfu. Nid yw'n ymwneud â thicio bocsys; mae'n ymwneud ag oedi, adlewyrchu, a gwneud cynnydd.

Yn seiliedig ar eich ymatebion, byddwch yn derbyn adroddiad sy'n tynnu sylw at gryfderau a meysydd i'w datblygu. Bydd hefyd yn eich cyfeirio chi at adnoddau perthnasol i'ch helpu i weithredu.



# Pwy Ddylai Ei Gwblhau?

Mae Sylfeini 360 ar gael am ddim i **bob clwb a sefydliad chwaraeon yng Nghymru** sy'n gweithio gyda phlant 3 i 11 oed.


# Sut Mae Dechrau Arni?

I ddechrau, bydd angen i'ch clwb chi greu proffil ar **Brightspace** - proses gyflym a hawdd.

# Faint o Amser Fydd o'n ei Gymryd?

Mae wedi'i gynllunio i fod yn hyblyg. Gallwch gwblhau pob adran mewn cyn lleied â **10 munud**, neu gymryd mwy o amser i drafod pob cwestiwn yn fanwl. Gallwch arbed eich cynnydd a dychwelyd yn ddiweddarach.

# Siart Llif Sylfeini 360



# Cam 1 - Pwyllgor

- Mae angen ateb pob datganiad ym mhob adran. Mae hyn yn sicrhau bod eich adroddiad yn fanwl gywir ac yn ystyrlon.
- Mae'r adnodd yn gweithio orau pan fydd pob aelod o'r pwyllgor yn cyfrannu. Trafodwch bob adran gyda'ch gilydd - mae safbwynt pawb yn bwysig.
- Ar ôl i chi gyflwyno eich ymatebion, does dim posib eu golygu. Cymerwch amser i adolygu eich atebion yn ofalus cyn eu cwblhau a'u cyflwyno.
- Bydd cyfle i chi ailedrych ar yr adnodd ar ôl chwe mis. Mae hyn yn helpu i dracio cynnydd a mesur gwelliannau.
- **Yn seiliedig ar eich ymatebion, byddwch yn cael adroddiad yn tynnu sylw at y canlynol:**
  - Cryfderau eich clwb
  - Meysydd i'w datblygu
  - Dolenni at adnoddau i'ch helpu i weithredu.
- **Mae'r adnodd wedi'i gynllunio i gyd-fynd â'ch amserlen:**
  - Cwblhewch bob adran mewn cyn lleied â 10 munud, neu
  - Cymerwch fwy o amser ar gyfer trafodaeth fanwl. Gallwch arbed cynnydd a dychwelyd yn ddiweddarach.
- **Mae posib rhannu eich adroddiad gyda'r canlynol:**
  - Eich tîm datblygu chwaraeon lleol
  - Swyddog eich Corff Rheoli Cenedlaethol (CRhC)
  - Gyda'ch gilydd, gallwch archwilio cefnogaeth bellach a chreu cynllun gweithredu.

***Rydyn ni'n argymell ailedrych ar yr adnodd yn flynyddol i dracio cynnydd eich clwb a dathlu cyflawniadau.***

# Cam 2 – Hyfforddwyr, Cynorthwywyr, Gwirfoddolwyr a Chyfranogwyr

## Cofnodi Llais y Plentyn mewn Chwaraeon

Yn y cam hwn, byddwch yn casglu data gan Hyfforddwyr, Cynorthwywyr a Gwirfoddolwyr, a Chyfranogwyr (plant 3 i 11 oed). Byddant yn cwblhau arolwg ar gyfer pob maes o'r Fframwaith Sylfeini: Diogelwch a Pherthyn, Mwynhad ac Ymwneud, a Datblygiad a Hyder.

## Hyfforddwyr, Cynorthwywyr a Gwirfoddolwyr

Ewch ati i greu rhestr o Hyfforddwyr, Cynorthwywyr a Gwirfoddolwyr yr hoffech iddynt ymateb i'r arolygon. Anfonwch y rhestr at sportwales.brightspace@sport.wales gyda chais i'w cofrestru ar gyfer Adnodd Sylfeini 360 eich clwb.

Rydyn ni'n argymell **2 hyfforddwr o leiaf.** Yn dibynnu ar faint eich clwb, efallai yr hoffech gynnwys mwy, gan y bydd hyn yn eich helpu i sicrhau gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa gyffredinol.

## Cyfranogwyr

Bydd ymatebion y cyfranogwyr yn cael eu cofnodi naill ai drwy gyfrifon Brightspace yr hyfforddwyr neu, lle bo hynny'n berthnasol, drwy gyfrifon Brightspace y cyfranogwyr hŷn (14+ oed). Wrth gynllunio casglu data, ystyriwch a fydd plant iau (3 i 11 oed) yn teimlo'n gyfforddus yn rhannu eu hymatebion drwy eu hyfforddwr, neu a fyddai'n fwy priodol i gyfranogwr hŷn yn y clwb (14+ oed) eu cefnogi i gwblhau'r datganiadau. Gall hyn wella hyder ac ansawdd y data.

I alluogi hyn, anfonwch y rhestr o gyfranogwyr hŷn (14+ oed) at sportwales.brightspace@sport.wales gyda chais iddynt gael eu cofrestru ar Adnodd Sylfeini 360 eich clwb.

Ar y tudalennau nesaf fe welwch chi'r adran ar: 'Cofnodi Llais y Plentyn mewn Chwaraeon'. Mae hwn wedi'i greu i'ch cefnogi chi i gasglu ymatebion gan gyfranogwyr ac mae hefyd yn weladwy i bob Hyfforddwr, Cynorthwy-ydd a Gwirfoddolwr sydd wedi cofrestru yn Adnodd Sylfeini 360 eich clwb.

Rydyn ni'n argymell o leiaf **7 cyfranogwr,** ond po fwyaf o ymatebion rydych chi'n eu casglu, y mwyaf cywir a llawn gwybodaeth fydd eich canlyniadau.

Cofiwch osod a chyfathrebu amserlenni clir ar gyfer casglu'r data. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod pawb yn cael cyfle i gwblhau eu harolwg cyn i chi symud ymlaen i Gam 3: Canlyniadau.

# Pam Mae Lleisiau Plant yn Bwysig mewn Chwaraeon

Nid yn unig y mae gwrando ar blant yn arfer da - mae'n hanfodol. Mae profiadau, cymhellion ac anghenion plant yn wahanol i rai oedolion. Pan fydd hyfforddwyr yn ceisio ac yn ymateb yn weithredol i lais y plentyn, maen nhw'n creu amgylcheddau mwy diogel, mwy pleserus a mwy grymusol.

**Cefnogi diogelwch a lles:** Mae plant sy'n teimlo eu bod yn cael eu clywed yn fwy tebygol o siarad am bryderon neu ofnau.

**Datgelu gwir gymhellion:** Mae'n helpu hyfforddwyr i ddeall bod plant yn cymryd rhan yn bennaf er mwyn cael hwyl, gwneud ffrindiau a dysgu - nid dim ond cystadleuaeth.

**Hybu ymgysylltu a chadw:** Pan mae eu llais yn cyfrif, mae plant yn teimlo perchnogaeth ac yn aros yn rhan o bethau am gyfnod hirach.

**Galluogi hyfforddi sy'n canolbwyntio ar y plentyn:** Mae adborth yn caniatáu i hyfforddwyr addasu sesiynau i anghenion, hyder ac arddulliau dysgu plant.

**Meithrin ymddiriedaeth a bod yn agored:** Mae gwrando'n dangos i blant fod eu barn yn bwysig a bod chwaraeon yn ofod diogel a chefnogol.

**Gwella ansawdd sesiynau:** Mae gwybodaeth reolaidd yn helpu i fireinio gweithgareddau, lefelau her a chyflymder.

**Cryfhau perthnasoedd:** Mae gwrando ar blant yn meithrin cysylltiad, parch a chefnogaeth.

**Annog ymreolaeth:** Mae cynnwys plant mewn penderfyniadau yn meithrin cymhelliant, hyder a gwydnwch.



# Beth Mae “Llais y Plentyn” yn ei Olygu

Mae cofnodi llais y plentyn yn ymwneud â **gofyn am, gwrando ar, a gweithredu ar safbwyntiau plant yn weithredol**, gan gynnwys:

- Eu hoff bethau a'u cas bethau
- Sut maen nhw'n teimlo yn ystod sesiynau
- Beth sy'n eu helpu i ddysgu
- Beth sy'n eu poeni
- Eu syniadau ar gyfer gwella
- Beth sy'n eu helpu i deimlo'n ddiogel a bod ganddyn nhw gefnogaeth.

**Nid** gofyn i blant wneud penderfyniadau oedolion yw hyn – mae'n ymwneud yn syml a'u cael nhw i lywio ac arwain yr amgylchedd o'u cwmpas.

# Creu Diwylliant "Dim Atebion Anghywir"

Mae angen diogelwch seicolegol ar blant i roi adborth gonest. Gall hyfforddwyr a chyfranogwyr hŷn greu hyn drwy wneud y canlynol:

### Negeseuon

- "Does dim atebion cywir nac anghywir - dim ond yr hyn rydych chi'n ei feddwl."
- "Rydyn ni eisiau gwybod sut rydych chi'n teimlo, nid yr hyn rydych chi'n ei feddwl rydyn ni eisiau ei glywed."
- "Mae eich syniadau chi'n ein helpu ni i wneud y sesiynau'n well."

### Amgylchedd

- Annog camgymeriadau fel rhan o ddysgu.
- Canmol ymdrech a bod yn agored, nid dim ond "atebion da."
- Osgoi cywiro neu ddiystyru sylwadau plant yn adweithiol.
- Peidio byth â dewis plentyn ar gyfer adborth mewn ffordd sy'n creu pwysau neu embaras.

### Ymddygiadau hyfforddwyr

- Trin yr holl adborth o ddifrif.
- Ymateb gyda chwilfrydedd: "Dywedwch fwy wrthyf i am hynny."
- Diolch i'r plant am rannu - hyd yn oed os yw'r adborth yn heriol i'w glywed.

# Ffyrdd Ymarferol o Gofnodi Lleisiau Plant sy'n Cefnogi Sylfeini 360

Defnyddiwch gymysgedd o ddulliau ffurfiol ac anffurfiol i wneud cyfranogiad yn hawdd ac yn briodol i oedran. Gall llawer o'r gweithgareddau hyn ddigwydd yn y dŵr neu ar dir, gydag offer wedi'i addasu. Cofiwch gasglu atebion drwy borthol Sylfeini 360 Brightspace.

### D.S.

- Rhaid nodi ymatebion pob cyfranogwr ar wahân i sicrhau data o ansawdd uchel, ar lefel unigol.
- Peidiwch â chyfuno nac uno ymatebion cyfranogwyr lluosog.
- Efallai y bydd angen i chi ystyried sut gellir integreiddio technoleg i sesiynau ymarferol i helpu i gasglu ymatebion yn fyw, fel defnyddio tabledi, dyfeisiau symudol, codau QR, neu gofrestru mewn gorsafoedd.

# Gweithgareddau Cefnogol

### Rasys Cyfnewid – Cylchoedd Gwyrdd / Melyn / Coch

**Beth yw'r gweithgaredd**

Mae'r plant yn symud mewn timau i osod cerdyn datganiad yn y cylch sy'n cyfateb i'w barn:

- 🟢 Cytuno
- ⚫ Ddim yn siŵr
- 🔴 Anghytuno

**Sut mae'n gweithio**

Mae'r hyfforddwyr yn darllen datganiad yn uchel. Mae'r plant yn rasio yn ôl ac ymlaen gan osod y datganiad yn y lliw cywir.

**Pam mae'n effeithiol**

- Yn cadw'r adborth yn hwyl, yn actif, ac yn seiliedig ar symudiad.
- Mae'r plant yn gwneud dewisiadau greddfol, cyflym heb bwysau.
- Gall hyfforddwyr weld patrymau barn yn weledol.

**Tir / Dŵr**

- Tir: conau / cylchoedd wedi'u gosod yn ddiogel ar gyfer rhedeg.
- Dŵr: cylchoedd arnofiol neu smotiau lliw ar ochr y pwll.

### Didoli Lluniau – Ie / Ddim yn siŵr / Na

**Beth yw'r gweithgaredd**

Mae'r plant yn gosod cardiau datganiad wrth ymyl symbolau llun syml sy'n cynrychioli eu barn.

**Pam mae'n effeithiol**

- Yn ddelfrydol ar gyfer plant iau neu blant di-eiriau.
- Yn lleihau rhwystrau llythrennedd.
- Mae'r plant yn deall yn gyflym ac yn weledol.

**Tir / Dŵr**

- Defnyddiwch gardiau gwrth-ddŵr ar gyfer amgylcheddau pwll.

### Gorsaf Adborth Emoji

**Beth yw'r gweithgaredd**

Mae'r plant yn gosod sticeri emoji (🙂 😐 🤔 🙁) wrth ymyl datganiadau.

**Pam mae'n effeithiol**

- Cyflym a mynegiannol.
- Yn caniatáu adborth yn seiliedig ar emosiynau, nid dim ond ie / na

**Tir / Dŵr**

- Byrddau dal dŵr ar ochr y pwll.

### Gorsaf Nodiadau Gludiog

**Beth yw'r gweithgaredd**

Mae'r plant yn ychwanegu nodiadau gludiog lliw gyda neu heb ysgrifen wrth ymyl datganiadau adborth.

**Pam mae'n effeithiol**

- Yn galluogi bod yn ddienw a mynegiant personol.
- Gall y plant dynnu llun yn lle ysgrifennu.

**Tir / Dŵr**

- Defnyddiwch fyrddau wedi'u lamineiddio a thabiau gludiog amgylchedd gwlyb ar gyfer sesiynau pwll.

## Murluniau Papur

**Beth yw'r gweithgaredd**

Rholyn mawr o bapur gyda datganiadau wedi'u gludo arno. Mae'r plant yn tynnu llun, stampio, ysgrifennu neu'n dwdlo eu hymateb.

**Pam mae'n effeithiol**

- Creadigol a mynegiannol, gwych ar gyfer plant tawelach neu fyfyriol.
- Casglu dyfnder gwybodaeth, nid dewisiadau cyflym.

**Tir / Dŵr**

- Ochr y pwll: defnyddiwch ddalennau sy'n dal dŵr neu fyrddau gwyn mawr.

## Jenga Cwestiynau

**Beth yw'r gweithgaredd**

Datganiadau wedi'u hysgrifennu ar flociau Jenga. Mae'r plant yn tynnu un ac yn rhoi ymateb.

**Pam mae'n effeithiol**

- Mae teimlad un i un neu grŵp bach yn annog trafodaeth onest.
- Yn ychwanegu elfen o syrpreis hwyliog.

**Tir / Dŵr**

- Fersiwn wrth ochr y pwll: blociau arnofiol neu drafodaeth ardal sych.

## Helfa Drysor

**Beth yw'r gweithgaredd**

Cardiau datganiad wedi'u cuddio o amgylch ardal. Mae'r plant yn dod o hyd i gerdyn ac yn ei ateb neu'n ei gyfnewid ag eraill.

**Pam mae'n effeithiol**

- Yn seiliedig ar symudiad = lefel uchel o ymgysylltu.
- Mae'r trafodaethau'n digwydd yn naturiol rhwng plant yn aml.

**Tir / Dŵr**

- Defnyddiwch gardiau arnofiol neu gardiau wedi'u lamineiddio sy'n dal dŵr.

## Llinell Adborth Wynebau Syml

**Beth yw'r gweithgaredd**

Rhes o wynebau syml (hapus → ansicr → ddim yn hapus). Mae'r plant yn pwyntio, yn gosod sticer, neu'n lliwio wyneb.

**Pam mae'n effeithiol**

- Dangosyddion emosiynol clir.
- Gwych ar gyfer cyfranogwyr iau.

**Tir / Dŵr**

- Byrddau y mae posib eu hargraffu neu gardiau sy'n dal dŵr.

## Rhoi Eich Hun ar y Llinell

**Beth yw'r gweithgaredd**

Llinell gorfforol ar y llawr neu wrth ochr y pwll: Cytuno —— Ddim yn siŵr —— Anghytuno. Mae'r plant yn sefyll lle maen nhw'n teimlo.

**Pam mae'n effeithiol**

- Hynod weledol; yn creu naws.
- Yn annog adlewyrchu fel grŵp.

**Tir / Dŵr**

- Llinell o dâp neu farcwyr ar ochr y pwll.

## Cardiau / Conau Goleuadau Traffig

**Beth yw'r gweithgaredd**

Pob plentyn yn dal:

- ● Cytuno
- ● Ddim yn siŵr
- ● Anghytuno.

**Pam mae'n effeithiol**

- Gwirio cyflym yn ystod sesiynau.
- Gwych ar gyfer cynhesu neu wirio curiad y galon yng nghanol sesiwn.

**Tir / Dŵr**

- Cardiau sbwng neu fersiynau arnofiol.

### Pedair Cornel

**Beth yw'r gweithgaredd**

Corneli wedi'u labelu: hapus, iawn, ansicr, ddim yn hapus.

**Pam mae'n effeithiol**

- Yn annog sgwrs gymdeithasol.
- Mae'r plant yn ymrwymo'n gorfforol i farn.

**Tir / Dŵr**

- Defnyddiwch gonau / arwyddion ar ddec neu farcwyr dŵr bas.

### Dull Bawd

**Beth yw'r gweithgaredd**

Mae'r plant yn defnyddio bawd i fyny / canol / i lawr i ymateb.

**Pam mae'n effeithiol**

- Hynod gyflym, pwysedd isel.
- Helpu gydag asesiad anghenion canol sesiwn.

**Tir / Dŵr**

Gweithio mewn unrhyw amgylchedd.

### Caprys Caprys – 4 Tîm

**Beth yw'r gweithgaredd**

Pedair cornel = y pedwar ymateb posibl.
Cardiau fflach yn y canol gyda symbolau adborth.
Mae'r plant yn rasio i gasglu'r symbol adborth sy'n cyfateb.

**Pam mae'n effeithiol**

- Actif, tebyg i gêm a hwyliog.
- Yn annog gwaith tîm + gwneud penderfyniadau.

**Tir / Dŵr**

- Cardiau arnofiol ar gyfer fersiwn pwll.

### Crwst a Briwsion

**Beth yw'r gweithgaredd**

Mae'r plant yn dechrau ar linell ganol.
Maen nhw'n rhedeg / cerdded / nofio i'r:
Chwith = Ie
Dde = Na
Aros yn llonydd = Ansicr
Mae'r arddull teithio'n newid ar gyfer pob rownd.

**Pam mae'n effeithiol**

- Yn ychwanegu amrywiaeth symudiad = mwynhad mawr.
- Mae fformat ie / na / ansicr syml yn cofnodi dewisiadau clir.

**Tir / Dŵr**

- Yn gweithio'n dda ar gyfer cynhesu cyn nofio neu sesiynau sych.

### Corneli Cartref

**Beth yw'r gweithgaredd**

Mae'r plant yn dechrau mewn un gornel "gartref".
Pan mae datganiad yn cael ei ddarllen, maen nhw'n symud i'r:
Corneli: Ie | Na | Ansicr.

**Pam mae'n effeithiol**

- Gwych ar gyfer grwpiau mawr.
- Yn meithrin hyder wrth i blant weld cyfoedion sydd â safbwyntiau tebyg.

**Tir / Dŵr**

- Labelwch gorneli gyda chonau, posteri neu farcwyr arnofiol.

# Adnoddau Enghreifftiol ar gyfer Hyfforddwyr

## Datganiadau Sylfeini 360

Caiff pob datganiad ei raddio gan ddefnyddio graddfa tair pwynt:
🙂 Cytuno 😐 Ddim yn siŵr 🙁 Anghytuno

**Rydw i'n teimlo'n ddiogel yn fy nghlwb** 🙂 😐 🙁

**Rydw i'n gallu chwarae gemau hwyliog a rhoi cynnig ar heriau yn fy nghlwb** 🙂 😐 🙁

**Rydw i'n teimlo bod croeso i mi yn fy nghlwb** 🙂 😐 🙁

**Mae fy hyfforddwr i'n deg** 🙂 😐 🙁

**Mae fy hyfforddwr i'n fy adnabod i** 🙂 😐 🙁

**Rydw i'n teimlo'n hapus yn fy nghlwb** 🙂 😐 🙁

**Rydw i'n gwybod bod fy hyfforddwr i'n deall chwaraeon oherwydd ei fod yn helpu i wella fy sgiliau** 🙂 😐 🙁

**Rydw i'n mwynhau symud a bod yn actif yn fy nghlwb** 🙂 😐 🙁

**Rydw i'n gwneud fy ngorau yn fy nghlwb** 🙂 😐 🙁

**Does gen i ddim ofn gwneud camgymeriadau yn fy nghlwb** 🙂 😐 🙁

**Mae fy hyfforddwr i'n dweud pethau neis pan rydw i'n gwneud yn dda** 🙂 😐 🙁

**Mae fy hyfforddwr i'n fy helpu i** 🙂 😐 🙁

**Rydw i'n gallu rhannu fy syniadau gyda fy hyfforddwr** 🙂 😐 🙁

**Rydw i'n cael hwyl gyda fy ffrindiau yn fy nghlwb** 🙂 😐 🙁

**Mae gennym ni lawer o adnoddau yn fy nghlwb** 🙂 😐 🙁

# Cardiau Fflach Sylfeini 360

| | | |
|---|---|---|
| IE | ANSICR | NA |
| IE / CYTUNO | ANSICR | NA / ANGHYTUNO |
|  |  |  |
|  |  |  |


Foundations Framework Wales

# Cam 3 - Archwilio Eich Canlyniadau


Pan fyddwch chi'n cyrraedd eich dyddiad cau ar gyfer casglu ymatebion gan gyfranogwyr, hyfforddwyr, cynorthwywyr a gwirfoddolwyr, mae'n amser adolygu'r canlyniadau.

## Dilynwch y camau yma i ddod o hyd i'r canlyniadau:

### Ewch i Adnoddau'r Cwrs > Cwisiau





### Dewiswch y cwis, cliciwch ar y saeth i lawr ac o'r gwymplen dewiswch 'Ystadegau'






Fframwaith Sylfeini Cymru

## Nodwch sgôr gyfartalog y dosbarth




### Dilynwch y camau yma i wneud nodyn o ganlyniadau 6 chwis:

- **Cyfranogwyr:** Diogelwch a Pherthyn
- **Cyfranogwyr:** Mwynhad ac Ymwneud
- **Cyfranogwyr:** Datblygiad a Hyder
- **Hyfforddwyr, Cynorthwywyr a Gwirfoddolwyr:** Diogelwch a Pherthyn
- **Hyfforddwyr, Cynorthwywyr a Gwirfoddolwyr:** Mwynhad ac Ymwneud
- **Hyfforddwyr, Cynorthwywyr a Gwirfoddolwyr:** Datblygiad a Hyder


# Dadansoddi ac Adlewyrchu

Gall cymharu'r canlyniadau rhwng ymatebion Pwyllgor y Clwb yn erbyn ymatebion y Cyfranogwyr, Hyfforddwyr, Cynorthwywyr a Gwirfoddolwyr eich helpu chi i gael persbectif gwahanol.

Wnaethoch chi ddod o hyd i unrhyw wahaniaethau rhwng y canlyniadau? Oes meysydd sy'n edrych yn wahanol iawn ar y graffiau?

Os hoffech chi ddysgu mwy am o ble mae'r gwahaniaethau'n dod, rydyn ni'n argymell dadansoddi'r ymatebion yn fanylach. Gallwch nodi pa gwestiynau gafodd sgôr is ac uwch i'ch cefnogi chi wrth baratoi cynllun gweithredu datblygu. Ewch i Ystadegau'r Cwis (Cyfarwyddiadau yn Adolygu'r Canlyniadau).

### Cliciwch ar y tab 'Manylion y Cwestiwn' a gwnewch yn siŵr eich bod chi'n dewis 'Pob Ymgais' o'r gwymplen (fel yn y llun isod).




Bydd y sgrin yma'n galluogi i chi weld ystadegau manwl ar gyfer pob cwestiwn. Gall hyn eich helpu chi i ddeall pa elfennau penodol o bob maes o'r Fframwaith Sylfeini sydd angen eu gwella a pha rai sy'n gweithio'n dda.

Ar gyfer y gweithgaredd nesaf bydd angen i chi grynhoi'r canlyniadau, er mwyn gallu cynhyrchu'r adroddiad cyffredinol.

### Rhowch yr holl sgoriau ar gyfer pob maes at ei gilydd drwy eu hadio:

Canlyniadau Pwyllgor y Clwb + Cyfranogwyr + Canlyniadau'r Hyfforddwyr = ?

Wedyn rhannwch y cyfanswm gyda 3. Bydd hyn yn rhoi'r canlyniad cyffredinol i chi.

## Sut i gael mynediad at ganlyniadau'r cwis?

### Canlyniadau Cyfranogwyr a Hyfforddwyr
Defnyddiwch y data wnaethoch chi ei nodi yn y cam cynharach (Adolygu'r Canlyniadau).

### Canlyniadau Pwyllgor y Clwb
I gael mynediad at ganlyniadau Pwyllgor y Clwb ewch i Ystadegau'r Cwis (Cyfarwyddiadau: Adolygu'r Canlyniadau): ar gyfer Diogelwch a Pherthyn dewch o hyd i Bwyllgor y Clwb: Diogelwch a Pherthyn (Adolygiad 1), ar gyfer Mwynhad ac Ymwneud dewch o hyd i Bwyllgor y Clwb: Mwynhad ac Ymwneud (Adolygiad 1), ac ar gyfer Datblygiad a Hyder dewch o hyd i Bwyllgor y Clwb: Datblygiad a Hyder (Adolygiad 1).

Pan fydd eich canlyniadau cyffredinol yn barod, cwblhewch y gweithgareddau nesaf.

# Y Camau Nesaf

## Dyma'r camau nesaf sy'n cael eu hawgrymu ar gyfer Sylfeini 360:

- **Dathlu'r meysydd cryfder ac arddangos y rhain i aelodau'r clwb**
- **Ystyried y meysydd i'w gwella**
- **Argraffu neu lawrlwytho'r dudalen canlyniadau**
- **Nodi pobl neu sefydliadau a all eich cefnogi chi e.e. Corff Rheoli Cenedlaethol, Tîm Datblygu Chwaraeon Awdurdod Lleol, ac ati**
- **Cysylltu â'ch Corff Rheoli Cenedlaethol neu dîm Datblygu Chwaraeon yr ALl i'ch helpu chi i greu cynllun datblygu clwb**
- **Cynnwys y bobl berthnasol o'ch sefydliad wrth greu cynlluniau ar gyfer y dyfodol e.e. cyfranogwyr, hyfforddwyr, aelodau pwyllgor, ac ati.**

Fframwaith Sylfeini Cymru